

Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru 2002-2006

Gorffennaf 2007

Preifat a Chyfrinachol



DTZ
Marchmount House
Dumfries Place
Caerdydd CF10 3RJ

Uned Ymchwil Economi Cymru,
Ysgol Fusnes Caerdydd,
Colum Drive,
Caerdydd CF10 3EU.

Cyswllt DTZ:
Angharad Jones (angharad.jones@dtz.com)

Cysylltiadau Uned Ymchwil Economi Cymru:
Dr Jane Bryan (bryanj@cf.ac.uk)
Dr Annette Roberts (robertsa1@cf.ac.uk)

Cynnwys

	Tudalen
1	Cyflwyniad 3
2	Cefndir 4
2.1	S4C – Gorolwg 4
2.2	Y Sector Cynhyrchu – gorolwg 7
3	Methodoleg 10
3.1	Modelu 11
3.2	Crynodeb 12
4	Effaith Economaidd S4C 13
5	Crynodeb a Chasgliad 19

Atodiadau

Methodoleg

Atodiad 1

Crynodeb Gweithredol

Comisiynodd S4C DTZ, ynghyd ag Uned Ymchwil Economi Cymru (WERU), i amcangyfrif effaith economaidd ei gweithgaredd ar economi Cymru yn ystod pob un o'r pum mlynedd rhwng 2002 a 2006.

Cefndir

Fel awdurdod darlledu cyhoeddus, mae S4C yn gweithredu o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, gan dderbyn cymorth grant gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Ceir incwm ychwanegol hefyd o ffynonellau megis hysbysebu a nawdd. Dros gyfnod yr astudiaeth, mae refeniw S4C wedi parhau'n gymharol gyson ar oddeutu £96 miliwn y flwyddyn.

Wrth amcangyfrif effaith economaidd S4C, casglwyd gwybodaeth ariannol fanwl gan S4C a chwmmniau cynhyrchu Cymreig. Defnyddiwyd tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru i fodelu'r modd yr oedd yr economi lleol yn rhyngweithio'n ehangach ac i amcangyfrif cyfanswm effaith economaidd S4C¹ ar gyfer pob un o'r blynyddoedd.

Effaith Economaidd S4C

Dros y cyfnod o bum mlynedd, effaith uniongyrchol S4C oedd cyflogi'r hyn oedd yn cyfateb i dros 175 gweithiwr amser llawn (FTE) y flwyddyn. Fel corff comisiynu, darparu cynnwys yw'r gwariant unigol mwyaf. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwariwyd dros £76 miliwn ar y sector annibynnol, gydag oddeutu £72 miliwn ohono yn cael ei wario yng Nghymru. Amcangyfrifir fod hyn, ynghyd â gweithgareddau'r pencadlys yn Llanisien a Chaernarfon wedi cefnogi oddeutu 2,250 swydd sy'n cyfateb i swyddi llawn amser yn economi Cymru.

Mae'r effeithiau hyn wedi eu cronni, yn bennaf, yn sector y cyfryngau yng Nghymru, sy'n bwysig o ystyried ansawdd y swyddi yn y sector hwn, sy'n cael eu cydnabod fel rhai tra medrus, sydd â chyflogau da ac sy'n cael eu cyfeirio gan dechnoleg. Mae cyfanswm swyddi S4C wedi gostwng dros y cyfnod o 5 mlynedd, ond mae effaith hyn wedi cael ei ostwng yn rhannol gan gynnydd yn nifer y swyddi yn y sector cynhyrchu annibynnol.

Tabl E.1 – Amcangyfrif o Effaith Cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol S4C ar Economi Cymru 2002-06

	2002	2003	2004	2005	2006
Allbwn Gros S4C (£m)*	£95.9m	£94.5m	£95.0m	£95.6m	£96.7m
Amcangyfrif o Effaith Cyflogaeth S4C ar Economi Cymru	2,240FTE	2,180FTE	2,150FTE	2,120FTE	2,250FTE
Amcangyfrif o Effaith Gwerth Ychwanegol S4C ar Economi Cymru	£77m	£82m	£80m	£82m	£87m
*Cyfanswm gwariant/trosiant S4C. Sylwer fod y ffigyrau wedi'u rowndio					

¹ Nid yw ystod yr adroddiad yma yn cynnwys effaith rhaglenni a ddarperir gan BBC Cymru ar gyfer eu darlledu ar S4C fel rhan o'r ddarpariaeth statudol.

Mae cyfieithu effaith cyflogaeth i effaith gwerth ychwanegol yn dangos, dros y cyfnod o bum mlynedd, fod gweithgaredd S4C wedi cefnogi dros £77 miliwn yn economi Cymru y flwyddyn.

1 Cyflwyniad

Comisiynodd S4C DTZ i amcangyfrif effaith ei gweithgaredd ar economi Cymru rhwng 2002 a 2006, gyda chymorth Uned Ymchwil Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae S4C yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr economi. Diben yr astudiaeth hon yw adolygu ac asesu'r effeithiau hyn i ddeall y cyswllt rhwng y gadwyn gyflenwi a'r effaith ar yr economi leol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil, ac wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn nodi **cefnidir** yr astudiaeth, gan amlinellu cyd-destun S4C o fewn economi Cymru a'r diwydiant cyfryngau;
- Mae Adran 3 yn nodi **methodoleg** amcangyfrif effaith economaidd S4C;
- Mae Adran 4 yn cyflwyno **canfyddiadau'r** ymchwil, gan amlinellu effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgaredd S4C y gellir ei fesur yn 2002-2006; a
- Mae Adran 5 yn rhoi **casgliadau'r** astudiaeth trwy grynhoi'r prif ganfyddiadau.

2 Cefndir

Mae'r bennod hon yn nodi cyd-destun yr astudiaeth. Er mwyn deall effaith S4C ar yr economi, mae'n ddefnyddiol i ddeall y gadwyn gyflenwi a'r farchnad y mae S4C yn gweithredu oddi mewn iddi. Mae'r bennod hon yn esbonio'r cyd-destun hwn yn gryno, gan nodi pam fod gan S4C ddiddordeb mewn deall yr effaith y mae'n ei chael ar yr economi.

2.1. S4C – Gorolwg

2.1.1 Cefndir S4C

Mae S4C yn awdurdod darlledu cyhoeddus a sefydlwyd gan Ddeddf Darlledu 1980/81 gan ddarlledu am y tro cyntaf am 6.00pm ar ddydd Llun 1 Tachwedd 1982.

Prif amcan S4C² yw darparu gwasanaeth teledu o safon uchel. Nod craidd S4C yw "*darparu gwasanaeth teledu cyfrwng Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd da, sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru*".

Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith a'r nod craidd hwn, mae Awdurdod S4C wedi sefydlu nifer o amcanion a thargedau penodol³.

Y cylch gwaith cyhoeddus ar deledu analog yw darlledu rhwng 18.30 a 22.00 bob dydd o'r wythnos. Rhaglenni Cymraeg ydynt ar y cyfan, gyda'r rhaglenni eraill fel rheol yn rhai sy'n cael neu sydd wedi cael eu darlledu ar Channel 4. Yn ddigidol, ei gylch gwaith yw darlledu amrywiaeth o raglenni amrywiol ac o ansawdd da, lle bydd cyfran helaeth ohonynt yn Gymraeg.

Dros y cyfnod rhwng 2002 a 2006, mae S4C wedi gweithredu fel darlledwr comisiynu⁴. Mae hyn yn golygu fod S4C, wrth gwrdd â'i hamcanion a'i thargedau, yn comisiynu'r mwyaftrif helaeth o raglenni gwreiddiol gan y sector annibynnol⁵. Felly, fel prif brynwr rhaglenni cyfrwng Cymraeg⁶, mae S4C yn cael effaith bwysig ar ddiwydiant Cymru trwy ei pholisïau a'i phenderfyniadau prynu.

Fel awdurdod darlledu, mae S4C yn gweithredu o dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996) a Deddf Cyfathrebu 2003 a'i rheoli gan Ofcom⁷ ac Awdurdod S4C.

² Fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol

³ Fel y nodir yn y Strategaeth Rhaglenni, y Cynllun Corfforaethol, a'r Datgabiadau Polisi Rhaglenni Blynyddol. Mae'r Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau hyn yn cynnwys gofynion Deddf Cyfathrebu 2003 ac Ofcom, y mae'n rhaid i S4C eu cwrdd.

⁴ Mae cynhyrchiadau mewnol S4C yn cynnwys Planed Plant a'r Tywydd. Mae'r ddau wedi'u rhoi allan i dendr yn 2007.

⁵ Er dibenion yr astudiaeth hon, rydym yn cynnwys ITV Cymru o fewn ein diffiniad o'r sector annibynnol.

⁶ Roedd y BBC yn rhoi tua 10 awr yr wythnos o raglenni gwreiddiol i S4C yn ystod cyfnod yr astudiaeth, oedd yn cynnwys elfen a gomisiynwyd gan y sector annibynnol. Nid yw ystod yr adroddiad yma yn cynnwys effaith rhaglenni a ddarperir gan BBC Cymru ar gyfer eu darlledu ar S4C fel rhan o'r ddarpariaeth statudol.

⁷ Mae'r corff hwn yn cymryd lle pum mudiad rheoleiddio gwahanol (y Comisiwn Teledu Annibynnol, y Comisiwn Safonau Darlledu, yr Awdurdod Radio, yr Asiantaeth Cyfathrebu Radio ac OFTEL). Sefydlwyd Ofcom yn dilyn Deddf Cyfathrebu 2003, fel yr un corff i reoleiddio diwydiannau cyfathrebu'r DG.

Mae'r tabl canlynol yn cynnig gorolwg o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan S4C ar hyn o bryd.

Tabl 1.1 Gorolwg o Wasanaethau S4C

Enw'r Gwasanaeth	Natur y Gwasanaeth	Llwyfan
S4C	Cymraeg yn unig ar oriau brig a goreuon Channel 4 ar adegau eraill	Analog
S4C digidol	Rhaglenni Cymraeg.	Teledu daearol digidol Teledu lloeren ddigidol (yn cynnwys gwasanaethau botwm coch a rhyngweithiol) Teledu cebl digidol
www.s4c.co.uk/c_watch.shtml	Dangos prif rannau S4C digidol yn fyw (yn ddibynnol ar hawliau). Dangos prif ddigwyddiadau Cymraeg yn fyw. Gwasanaeth dal i fyny ar gais.	Band eang
www.learnons4c.co.uk	Gwasanaeth arbennig ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn defnyddio rhaglenni S4C fel arf dysgu	Band eang
Freewire	Dangos S4C trwy bartneriaeth ag INUK	IPTV
S4C2	Dangos y Cynulliad Cenedlaethol 09:00-18:00 dydd Mawrth – dydd Iau Sylw ychwanegol i ddigwyddiadau cenedlaethol	Teledu lloeren ddigidol Teledu daearol digidol Teledu cebl digidol

Mae'r tabl canlynol yn dangos y referniw sydd ar gael i S4C i gyflwyno'i gwasanaethau. Mae cyfanswm y referniw mae S4C wedi'i dderbyn dros gyfnod yr astudiaeth wedi parhau'n weddol sefydlog. Mae grant yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cynyddu yn unol â chwyddiant (RPI).

Tabl 1.2 Referniw S4C yn ôl Ffynhonnell, 2002 i 2006

	Cyfanswm £m (cyfredol)				
	2002	2003	2004	2005	2006
Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon	81.468	83.634	85.729	88.690	90.857
Rhaglenni/Gwerthu amser darlledu	12.957	9.581	8.329	5.849	5.353
Cyhoeddi/nwyddau	0.488	0.289	0.279	0.312	0.321
Manteisio ar amlbleth	0.867	0.870	0.565	0.646	-
Incwm arall	0.213	0.139	0.142	0.156	0.169
Cyfanswm	95.993	94.513	95.044	95.653	96.70

2.1.2 Perthynas S4C gyda'r Sector Cynhyrchu Annibynnol

Mae S4C wedi newid ei dull o weithio a chysylltu â'r sector annibynnol ers 2004. Mae S4C wedi datblygu dull mwy eglur o gysylltu a thendro. Mae wedi'i gynllunio i annog marchnad gystadleuol, gyda sector cynhyrchu annibynnol iach sy'n deall gofynion S4C.

Mae'r berthynas rhwng polisi'r llywodraeth, polisi S4C, datblygiadau technolegol a'r newidiadau yn y farchnad yn gymhleth ond yn cydweddu. Er enghraifft, mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn galluogi'r sector cynhyrchu i gadw ei hawliau yn ymwneud â rhaglenni. Mae hyn yn caniatáu i'r sector fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad, trwy gydgyfeiriad technolegol, er enghraifft⁸. Aeth polisi S4C â hyn ymhellach trwy sylweddoli; er mwyn cwrdd â heriau yn y dyfodol (e.e. newid i'r drefn ddigidol), bod angen sector annibynnol cryf, gan gryfhau dyfodol y sector a dyfodol S4C.

Mae rhaglen ddiwygio S4C mewn perthynas â'i chynnwys a'i pherthynas â'r cyflenwyr yn ceisio ymateb i'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth newidiadau mewn technoleg, deddfwriaeth a'r farchnad. Mabwysiadwyd y dull hwn i sicrhau fod y diwydiannau creadigol yn cwrdd â nod S4C o gael rhagoriaeth greadigol er budd S4C ac i wneud y mwyaf ac i adeiladu ar fanteision masnachol eu cynnyrch mewn unrhyw iaith ac ar bob llwyfan.

Mae Telerau Masnachu newydd S4C wedi newid y modd y caiff busnes ei gynnal. Mae S4C hefyd wedi cynnig ail-neilltuo hawliau rhaglenni i wneuthurwyr y rhaglenni, a datblygu proses dendro agored i annog cystadleuaeth. Mae S4C hefyd wedi adolygu'r modd y caiff cymorth datblygu ei ddyrannu a'i ddisbarthu o fewn sector annibynnol Cymru.

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad strategol S4C ers mabwysiadu'r Strategaeth Rhaglenni, i ysgogi amgylchedd cystadleuol, masnachol a hynod greadigol er mwyn sicrhau ei dyfodol a dyfodol ei chyflenwyr, ysgogi rhagoriaeth greadigol, ac yn y pen draw i sicrhau fod cynnwys o ansawdd da yn cael ei gyflwyno i'r gynulleidfa.

Mae'n glir felly, o'r gorolwg hwn, fod y sector gynhyrchu annibynnol wrth graidd gweithgaredd S4C.

2.1.3 Strategaeth Rhaglenni S4C

Datblygodd S4C Strategaeth Raglenni (a adwaenir hefyd fel Strategaeth Rhagoriaeth Creadigol) yn 2004, i ymateb i gyfleoedd oedd yn wynebu'r sector o ran deddfwriaeth, y farchnad a thechnoleg. Diben y Strategaeth Raglenni oedd ysgogi amgylchedd cystadleuol, masnachol a hynod greadigol er mwyn sicrhau dyfodol S4C a dyfodol ei chyflenwyr. Mae prif rannau'r strategaeth hon yn cynnwys cyflwyno Codau Ymarfer a Thelerau Masnachu, oedd yn amlinellu sut fyddai S4C yn cysylltu â'r sector, a sicrhau perthynas fwy agored ac eglur. Roedd mentrau eraill yn cynnwys:

Tendro a Chomisiynu

Caiff cynnwys ei gomisiynu yn unol â'r Côt Ymarfer a'r Telerau Masnachu, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'r drefn dendro a chomisiynu'n gynhwysol ac eglur. Mae S4C wedi datblygu trefn gyfathrebu trwy ei gwefan, sydd ar gael i bawb. Mae S4C hefyd yn

⁸ Mae cydgyfeiriad technolegol yn golygu y gellir trawsyrru deunyddiau darlledu trwy fand eang/IPTV, setiau teledu a chyfrifiaduron, a thrwy ddigidoleiddio, gellir cyfieithu data i ffurf y gellir ei gyfathrebu'n fyd-eang

cynnig cytundebau tymor hir, gan hwyluso buddsoddiad i'w busnesau. Mae hyn wedi gwella, a bydd yn parhau i wella effeithlonrwydd economaidd y sector hwn.

Y Gronfa Ddatblygu

Mae S4C wedi newid ei bolisi ariannu datblygu. Yn hytrach na chynnig cymorth ariannol cymharol fach ar sail prosiectau bychain, roedd cwmnïau yn cael gwahoddiad i wneud cais am arian mwy sylweddol ar gyfer costau datblygu dros gyfnod hirach. Ar hyn o bryd, mae pum cwmni yn cael arian datblygu sy'n caniatáu iddynt sefydlu fframweithiau busnes cynladwy. Mae'r arian hefyd wedi caniatáu i gwmnïau sicrhau nawdd a buddsoddiad pellach, gan hwyluso datblygiad talentau a chynllunio busnes tymor hir. Mae'r mesurau hyn, ar y cyd ag ail-neilltuo hawliau ar gyfer gwaith cyfredol a gwaith yn y dyfodol, yn rhoi hwb i werth y sector gwirfoddol, gan ysgogi buddsoddiad eisoes.

Ail-neilltuo Hawliau Rhaglenni

Yn y gorffennol, roedd S4C, yn debyg i ddarlledwyr eraill, yn cadw hawliau rhaglenni a gomisiynwyd ganddynt, gan reoli gwerthiant, dosbarthiad a defnydd y rhaglenni. Mewn modd unigryw, mae S4C yn awr wedi cynnig ail-neilltuo'r hawliau hynny i'r cwmnïau â'u creodd yn wreiddiol, cyn belled â'u bod yn cwrdd â meini prawf, yn cynnwys gofal digonol am gynnwys a archifwyd. Mae ail-neilltuo hawliau hanesyddol yn mynd y tu hwnt i ofynion Deddf Cyfathrebu 2003. Mae gan y cwmnïau hynny sy'n gwneud cais llwyddiannus i ail-neilltuo rhaglenni y cyfle i sicrhau manteision masnachol ehangach o ail-ddatblygu hen ddeunyddiau i ddatblygu cynnyrch masnachol newydd a lansio'r cynnyrch hynny ar lwyfannau newydd.

Mae newidiadau eraill sydd wedi cael eu gweithredu gan S4C a fydd yn effeithio ar sector gynhyrchu Cymru a'r economi'n cynnwys:

- Gwneud cynlluniau hyfforddi yn un o ragofynion pob comisiwn
- Buddsoddi mewn hyfforddiant yn y sector yn flynyddol.

Mae'r ddwy ffactor uchod yn amlwg wedi cael eu cynllunio i wella'r gronfa sgiliau yn y sector, sydd â chyfraniadau pwysig i'w gwneud i'r economi.

2.2. Y Sector Cynhyrchu – gorolwg

Mae tri phrif reswm pam fod y sector cynhyrchu yn rhan bwysig o'r astudiaeth hon.

- Yn gyntaf, fel darlledwr (sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom), mae gan S4C ddyletswydd o ran ei chysylltiad â'r sector annibynnol (e.e. Côt Ymarfer).
- Yn ail, mae S4C yn prynu'r mwyafrif helaeth o raglenni gwreiddiol gan y sector annibynnol yng Ngyymru, a fydd yn golygu effeithiau economaidd.
- Yn drydydd, wrth i newidiadau technolegol ddigwydd, mae'r amgylchedd y mae darlledwyr a chynhyrchwyr yn gweithio oddi mewn iddo yn newid, gan arwain at newidiadau posibl yn yr effaith economaidd yn y dyfodol.

Effaith Economaidd

Y sector cynhyrchu annibynnol yw categori gwariant mwyaf S4C, gyda dros 80 y cant o gyfanswm gwariant S4C mewn unrhyw flwyddyn yn mynd i'r sector hwnnw. Mae angen clir, felly, i ddeall fod effaith economaidd S4C yn mynd y tu hwnt i'w chyflogaeth uniongyrchol, sy'n gymharol fach. Er enghraifft, mae S4C yn talu i gwmni cynhyrchu annibynnol am gynhyrchu swm penodol o raglenni gwreiddiol. Er mwyn cynhyrchu hynny, bydd y cwmni'n prynu nwyddau a gwasanaethau (e.e. gweithwyr camera, offer goleuo ac

ati). Mae angen ystyried yr holl ffactorau hyn wrth amcangyfrif effaith economaidd S4C ac mae angen dealltwriaeth lawn o'r gadwyn gyflenwi. Caiff y broses o amcangyfrif y gadwyn gyflenwi hon, er mwyn amcangyfrif yr effaith economaidd, ei thrafod ym Mhennod 3.

Mae S4C yn cydnabod pwysigrwydd allweddol y sector cyflenwi, gan weithio ar y sail bod angen twf economaidd cynladwy a pharhaus er mwyn sicrhau ffyniant. Ei barn hefyd yw bod sector cynhyrchu iach yn un sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo creadigrwydd ac arloesi.

Ar hyn o bryd, mae S4C yn comisiynu o gronfa gyflenwi o oddeutu deng cwmni ar hugain, sy'n amrywio o ran maint a lleoliad, ond sydd fel arfer wedi'u lleoli yng Nghymru. Barn S4C yw nad yw cynnal sector cynhyrchu sydd yn bennaf yn gwasanaethu gofynion darlledu Cymru yn ymarferol. Mae'r sector cynhyrchu yng Nghymru eisoes yn y broses o newid o un sydd wedi gwasanaethu anghenion marchnad ddarlledu ranbarthol a lleol i un sy'n gryfach yn economaidd, ac yn un sy'n cystadlu ym marchnadoedd ehangach y DG ac yn rhyngwladol. O gydnabod hynny, nid yw S4C wedi parhau gyda rhai arferion fel yswirio'r sector.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gostyngiad yn nifer y cwmnïau oedd yn cyflenwi S4C dros gyfnod yr astudiaeth. Mae'r tabl yn dangos yn glir fod cronfa gyflenwi S4C wedi'i chydgrynhoi dros gyfnod yr astudiaeth, gan ostwng o 42 yn 2002 i 31 yn 2006.

Blwyddyn	Nifer o Gwmnïau Cynhyrchu sy'n Cyflenwi S4C
2002	42
2003	35
2004	35
2005	31
2006	31
Ffynhonnell: S4C	

Ystyrir y gall cydgrynhoi'r sector arwain at fanteision posibl i ddiwydiant yr economïau maint, gwell profiad o'r farchnad a phortffolio gwaith mwy, gan arwain at ragor o dwf a buddsoddiad, fydd yn ei dro yn golygu cynnyrch o ansawdd gwell, gan sicrhau dyfodol y sector.

Cyd-destun Economaidd

Yn ogystal â'i gylch gwaith fel Darlledwr Sector Cyhoeddus, sy'n darparu cynnyrch addysgiadol, diwylliannol ac ieithyddol pwysig, mae effaith S4C ar y diwydiannau creadigol hefyd yn bwysig. Mae economi Cymru, yn erbyn nifer o brif fesuriadau, yn perfformio'n wael o'i gymharu â chyfartaledd y DG. Un agwedd arbennig oedd mai dim ond oddeutu 80 y cant o gyfartaledd y DG oedd y swm Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn 2005. Wrth leihau'r bwlch hwn, mae dymuniad i wella swyddi a chynnyrch yn y sectorau hynny o'r economi sy'n cynnig yr ychwanegiad mwyaf at werth. Ystyrir fod y sector darlledu a'r cyfryngau'n gyffredinol yn rhai sydd â chyflogau cymharol uchel, ac sydd â lefel sgiliau uchel a lefel technoleg uchel, gan roi gwerth ychwanegol, cyfleoedd gwaith a manteision i'r economi.

Caiff hyn ei gydnabod ym mhapur y Cynulliad Cenedlaethol *Cymru'n Ennill* sy'n dynodi'r 'diwydiannau creadigol' fel un o'r 10 sector pwysig i dwf economaidd yng Nghymru. Tra bo 'diwydiannau creadigol' yn cynnwys mwy na'r sector darlledu a'i gyflenwyr, maent yn chwarae rôl allweddol. Hefyd, mae *Cymru: Gwlad Well*, agenda strategol Llywodraeth

Cynulliad Cymru, yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu “Banc Gwybodaeth”, “*i annog busnes newydd ac ehangach mewn gweithgareddau sy’n ychwanegu gwerth uchel*”. Mae dau gwmi cynhyrchu Cymreig yn cael eu cefnogi o fewn y cynllun arbenigol hwn.

Mae data cyflogaeth yr Ymholiad Busnes Blynyddol yn dangos, yng Nghymru, fod; swyddi ym maes gweithgareddau radio a theledu (côd SIC: 9220) yn cyfrif am oddeutu 0.2 y cant o gyfanswm swyddi Cymru ym mhob diwydiant. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 0.3 y cant i’r DG. Felly, tra bo cyfanswm y swyddi mewn gweithgareddau radio a theledu yn gymharol isel mewn gwirionedd (tua 2,800 yn 2005), mae hyn yn debyg iawn i lefel y DG.

Gall S4C gael effaith ar safle perthynol y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru trwy ei pholisïau, ei phenderfyniadau prynu a’r dylanwad a gafodd ar y sector.

Er enghraifft:

- trwy brynu gan gwmiâu Cymreig, mae S4C yn symbylu’r sector diwydiannau creadigol;
- trwy gynnig cytundebau tymor hirach, gall S4C annog cwmiâu cynhyrchu i fuddsoddi mewn cyfalaf; a
- trwy nodi fod cynlluniau hyfforddi yn un o amodau comisiynu, mae S4C yn annog buddsoddi mewn datblygu sgiliau.

Felly, tra bo polisïau a gweithredoedd S4C wedi’u cynllunio i sicrhau ei bod yn gallu “*cynnig gwasanaeth teledu cyfrwng Cymraeg cynhwysfawr, o ansawdd da, sy’n adlewyrchu ac yn cyfoethogi bywyd Cymru*”, i sicrhau ei nod o gael Rhagoriaeth Creadigol, mae’n glir fod S4C hefyd yn cael effaith ar economi Cymru. Mae deall y cyd-destun polisi hwn, er nad yw o anghenraid yn dylanwadu ar ymddygiad neu weithredoedd S4C, yn werthfawr o ystyried yr effaith o’i gyswllt â’r gadwyn gyflenwi.

2.2.1 Crynodeb

Nid yw rôl S4C yng Nghymru yn cael ei gyrru’n bennaf gan yr angen i gael effaith gadarnhaol ar economi Cymru, ond i ddiwallu ei gylch gwaith o ran gwasanaeth cyhoeddus, sef cynnig gwasanaethau clyweledol cyfrwng Cymraeg. Nid yw’r adroddiad hwn yn archwilio nac yn ceisio mesur gwerth effaith S4C ar iaith, diwylliant na threftadaeth Cymru.

Serch hynny, mae S4C, trwy ei gweithgareddau, yn effeithio ar yr economi. Mae dros 80 y cant o gyfanswm ei gwariant yng Nghymru (a’i hincwm) ar y sector cynhyrchu annibynnol.


Mae penderfyniadau gwario S4C yn effeithio ar yr economi, ac yn penderfynu, i raddau, pa gyfran o’i gwariant sy’n aros yng Nghymru, a pha gyfran gaiff ei gwario y tu allan i Gymru.

Tra bo nifer y swyddi mewn gweithgareddau teledu a radio yng Nghymru yn gymharol fach, mae’n ddigon tebyg i gyfartaledd y DG. Gan ei fod yn sector dwys o ran technoleg, gyda lefel sgiliau uchel, ac yn sector sy’n ychwanegu llawer at werth, caiff ei gydnabod fel maes twf allweddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig o ystyried perfformiad gwael economi Cymru, o’i chymharu â chyfartaledd y DG.

3. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym i amcangyfrif effaith economaidd S4C. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 1.

Ffigwr 3.1 Effaith Economaidd



Mae'r diagram uchod yn dangos prif elfennau cyfrif yr effaith economaidd. Mae'r diagram yn dangos sut y caiff yr incwm y mae S4C yn ei dderbyn (e.e. fel ag y gwelir yn Nhabl 1.2) ei wario ar ei staff ei hun a gweithgareddau'r pencadlys ac ar y sector annibynnol a gweithgareddau cysylltiedig.

Wrth i S4C wario ei hincwm, bydd hyn yn cael effaith ar sectorau eraill yng Nghymru. Yn naturiol, ni all economi Cymru gyflenwi'r holl fewnbynnau angenrheidiol, felly, bydd yn rhaid cael rhywfaint o'r tu allan i Gymru.

Fel corff sy'n comisiynu, mae S4C yn gwario'r gyfran helaethaf o'i chyllideb ar y sector gynhyrchu annibynnol. Yna, mae'r cwmnïau annibynnol hynny'n cyflogi pobl yn uniongyrchol i gynhyrchu rhaglenni gwreiddiol. Serch hynny, mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i hyn. Ynghyd â chyflogi pobl, mae'r sector gynhyrchu annibynnol ei hun, hefyd yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Yn aml, bydd angen is-gontractio'r gwasanaethau i ryddgyfranwyr camera a sain, er enghraifft, ynghyd â'r offer y byddant yn eu defnyddio. Bydd y rheini, yn eu tro, yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan y sector cyfryngau a darlledu a sectorau eraill yn economi Cymru. Mae hyn yn parhau trwy'r gadwyn gyflenwi, gyda phopeth a gaiff ei brynu. Yr enw ar y gymhareb rhwng y rownd wariant gyntaf a swm y rowndiau dilynol yw'r lluoswr.

3.1 Modelu

Gofynnodd S4C i effaith economaidd ei gweithgaredd gael ei hamcangyfrif ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2002 a 2006. Roedd hynny'n gofyn am wybodaeth fanwl am bob blwyddyn ar wahân, a model ar gyfer pob un o'r blynyddoedd.

Roedd angen adolygu dwy brif elfen er mwyn creu model o'r effeithiau hyn. Yn gyntaf, roedd angen data gwario manwl gan S4C i gyfrif faint o'r gwariant oedd yn cael ei chadw yng Nghymru. Yn ail, gan fod S4C yn gomisiynydd, roedd yn bwysig edrych yn fanwl ar sut roedd cyflenwyr S4C yn gwario'r refeniw roeddent yn ei dderbyn gan S4C. Roedd effaith economaidd eu gweithgaredd yn dibynnu ar faint o'r gwariant oedd yn aros yng Nghymru. Dyna **effaith y cyflenwyr**.

Yn ychwanegol at hynny, mae effeithiau trwy incwm. Mae gweithwyr yn gwario eu cyflogau yn lleol ar nwyddau a gwasanaethau, sydd yn ei dro yn cynyddu'r galw. Wrth amcangyfrif yr effaith economaidd, mae angen ychwanegu'r **effeithiau trwy incwm** hyn at **effeithiau'r cyflenwyr** er mwyn cael **cyfanswm effaith anuniongyrchol** S4C.

Er mwyn amcangyfrif effaith economaidd gweithgaredd S4C, cafwyd gwybodaeth ariannol fanwl gan sampl o gwmnïau yn y sector⁹. Roedd y sampl yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran math, maint, dulliau a lleoliad y cyflenwyr, a defnyddiwyd hynny i ddeall gwahanol batrymau gwario'r cwmnïau sy'n gweithredu yn y sector. Mae'r wybodaeth ariannol a roddwyd gan y cwmnïau yn gyfrinachol.

Cafodd yr wybodaeth ei chyfuno a'i chwyddo'n gymesur i greu cyfanswm ar gyfer y sector gan ddangos yr hyn a brynwyd gan sectorau eraill Cymru, sydd wedyn yn dangos yr effaith economaidd trwy bob rhan o economi Cymru.

Yna, rhoddwyd yr wybodaeth mewn tabl Mewnbwn-Allbwn Cymru¹⁰ sy'n nodi'r trafodion rhwng gwahanol sectorau'r economi a thu hwnt. Byddai hynny yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif effeithiau'r gwahanol berthnasau masnachu ariannol hyn yng Nghymru, er mwyn medru amlinellu effaith y sector darged trwy economi Cymru gyfan.

Felly, wrth amcangyfrif yr effaith economaidd, rhaid oedd cael tri darn o wybodaeth allweddol:

- Gwariant S4C
- Patrymau Prynu (neu wario) Cyflenwyr
- Tabl Mewnbwn-Allbwn (sut mae'r economi'n rhyngweithio â'r gwahanol sectorau)

Noder nad yw ystod yr adroddiad yma yn cynnwys effaith rhaglenni a ddarperir gan BBC Cymru ar gyfer eu darlledu ar S4C fel rhan o'r ddarpariaeth statudol.

⁹ Holwyd 20 cwmni cynhyrchu fel rhan o'r ymchwil yma, gan felly gynnwys cyfran uchel o holl gwmnïau cynhyrchu sy'n cyflenwi S4C.

¹⁰ Uned Ymchwil Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd sy'n creu tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 ac hefyd ar www.weru.org.uk

3.2 Crynodeb

Wrth amcangyfrif effaith economaidd S4C ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2002 a 2006, casglwyd gwybodaeth fanwl gan S4C. Roedd yr wybodaeth yn bwysig am ddau reswm allweddol. Yn gyntaf, fe'i defnyddiwyd i gyfrif effaith uniongyrchol S4C (e.e. cyflogaeth uniongyrchol) ac yn ail, fe'i defnyddiwyd i greu model o batrymau prynu S4C dros bob un o'r blynyddoedd. Er mwyn amcangyfrif pa effaith fyddai newidiadau yng ngwariant S4C yn ei gael ar yr economi, roedd angen deall cyflenwyr S4C yn dda. Casglwyd gwybodaeth ariannol fanwl gan ystod eang o gyflenwyr S4C er mwyn creu darlun o sut roedd y sector yn gweithredu o ran patrymau prynu a chyflogi. Yna, defnyddiwyd gwybodaeth o'r tabl Mewnbwn-Allbwn i ddangos sut oedd yr economi lleol yn rhyngweithio a'r effaith y byddai newidiadau mewn un sector yn eu cael ar un arall, ac yn y blaen. Roedd hyn yn caniatáu i effaith economaidd S4C yn ystod y blynyddoedd rhwng 2002 a 2006 gael ei amcangyfrif.

Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a Thabl Mewnbwn-Allbwn Cymru ar gael yn Atodiad 1 ac ar www.weru.org.uk

4. Effaith Economaidd S4C

Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith gweithgareddau S4C ar economi Cymru o ran cyflogaeth a gwerth ychwanegol.

Bydd asesiad mesurol sy'n dibynnu'n llwyr ar natur a maint perthnasau masnachu bob amser yn un anghyflawn. Serch hynny, mae amcangyfrif yr effeithiau mesurol yn cynnig meincnod ar gyfer asesu arwyddocâd economaidd gweithgareddau darlledu, gan roi fframwaith ar gyfer deall canlyniadau newid.

4.1.1 Gwariant S4C yng Nghymru

Mae Tabl 4.1 yn dangos cyfanswm gwariant S4C ym mhob un o'r pum mlynedd (wedi'i ddangos mewn arian cyfredol). Yna, mae Tabl 4.2 yn dangos gwariant S4C **yng Nghymru**, tra bo Tabl 4.3 yn dangos y gwariant hwn fel cyfran Cymru o gyfanswm gwariant S4C.

Tabl 4.1 – Cyfanswm Gwariant S4C

	Cyfanswm gwariant £m (cyfredol)				
	2002	2003	2004	2005	2006
Costau Llafur Uniongyrchol	7.624	7.874	7.939	8.219	7.908
Gwasanaethau cynhyrchu annibynnol a gwariant cysylltiedig*	70.122	67.243	76.222	74.644	76.487
Costau darlledu a dosbarthu	7.360	6.562	6.525	6.529	6.312
Costau gwerthiant	6.159	3.994	3.849	3.397	3.821
Gweinyddu a hyfforddi	2.487	2.611	1.988	2.007	1.562
Rhentu/gosod eiddo	0.259	-0.256	0.113	0.095	0.059
Trydan, nwy a dŵr	0.103	0.096	0.103	0.122	0.145
Postio a thelegyfathrebu	0.232	0.262	0.259	0.220	0.218
Cynnal a chadw ac atgyweirio	0.165	0.113	0.245	0.256	0.071
Llogi offer	0.130	0.124	0.110	0.109	0.093
Gwasanaethau trafnidiaeth	0.162	0.127	0.126	0.093	0.069
Gwestai ac arlwyo	0.104	0.093	0.088	0.081	0.050
Gwasanaethau ariannol a busnes/telegyfathrebu	1.030	1.014	1.020	1.152	1.009
Gwasanaethau a llafur a is gontractiwyd	0.154	0.152	0.129	0.154	0.113
Cyfanswm	96.091	90.009	98.716	97.078	97.917
Noder: *Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys cost isdeitlo, marchnata, ymchwil cynulleidfa, datblygu'r we a thrwyddedau.					

Mae lefel uchel o wariant cyflogaeth yn cael ei gadw yng Nghymru. Y gwariant arall sydd ag effaith mawr yn lleol yw'r un ar gwmnïau annibynnol a gwariant cysylltiedig ar raglenni, wrth gwrs, gyda 95% o'r cyfanswm yn gyson yn cael ei wario ar gynhyrchu yn y sector annibynnol yng Nghymru. Mae gwariant ar wasanaethau, cynnal a chadw ac atgyweirio a gwasanaethau is-gontractio hefyd yn cael effaith mawr yn lleol; gyda'r gwariant ar yr olaf yn cael ei wneud yn gyfan gwbl yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae gan S4C record gref o gael nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau lleol, sy'n golygu fod cyfran helaeth o'r effaith economaidd posibl drwyddi draw yn cael ei gadw yng Nghymru.

Tabl 4.2 – Gwariant gan S4C yng Nghymru

	Cyfanswm gwariant yng Nghymru, £m (cyfredol)				
	2002	2003	2004	2005	2006
Costau Llafur Uniongyrchol	7.62	7.87	7.93	8.21	7.90
Gwasanaethau cynhyrchu annibynnol a gwariant cysylltiedig*.	64.86	63.20	72.41	71.13	72.66
Costau darlledu a dosbarthu	2.06	2.03	1.82	1.24	0.94
Costau gwerthiant	0	0	0	0	0.49
Gweinyddu a hyfforddi	1.41	1.43	0.61	1.22	0.96
Rhentu/gosod eiddo	0.22	-0.18	0.09	0.09	0.05
Trydan, nwy a dŵr	0.05	0.02	0.02	0.02	0.01
Cynnal a chadw ac atgyweirio	0.12	0.07	0.17	0.17	0.07
Llogi offer	0.06	0.06	0.05	0.04	0.03
Gwasanaethau trafnidiaeth	0.05	0.04	0.04	0.03	0.03
Gwestai ac arlwyo	0.05	0.05	0.05	0.05	0.02
Gwasanaethau ariannol a busnes/telegyfathrebu	0.30	0.18	0.19	0.25	0.30
Gwasanaethau a llafur a isgontractiwyd	0.13	0.11	0.10	0.10	0.11
Cyfanswm	76.99	74.9	83.52	82.61	83.64
Noder: *Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys cost isdeitlo, marchnata, ymchwil cynulleidfa, datblygu'r we a thrwyddedau.					

Tabl 4.3 – Cyfran Cymru o Wariant S4C (%)

	Cyfran Cymru (%) o Wariant S4C				
	2002	2003	2004	2005	2006
Costau Llafur Uniongyrchol	100	100	100	100	100
Gwasanaethau cynhyrchu annibynnol a gwariant cysylltiedig*.	92.5	94	95	95.3	95
Costau darlledu a dosbarthu	28	31	28	19	15
Costau gwerthiant	0	0	0	0	13
Gweinyddu a hyfforddi	57	55	31	61	62
Rhentu/gosod eiddo	87	72	80	97	100
Trydan, nwy a dŵr	56	22	23	20	10
Cynnal a chadw ac atgyweirio	74	69	70	70	100
Llogi offer	53	52	46	45	42
Gwasanaethau trafnidiaeth	37	34	34	42	51
Gwestai ac arlwyo	56	54	57	62	49
Gwasanaethau ariannol a busnes/telegyfathrebu	30	18	19	22	30
Gwasanaethau a llafur a isgontractiwyd	85	77	82	70	100
Cyfanswm	80	83	85	85	85
Noder: *Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys cost isdeitlo, marchnata, ymchwil cynulleidfa, datblygu'r we a thrwyddedau.					

4.1.2 Gwariant gan Sector Gynhyrchu Annibynnol Cymru

Mae Tabl 4.4 yn amcangyfrif gwariant **sector annibynnol Cymru**, h.y. darparwyr cynnwys rhaglenni cyfrwng Cymraeg sydd wedi cyflenwi S4C, rhwng 2002 a 2006. Yng nghwrs eu busnes, mae cwmnïau'r sector annibynnol yn prynu llafur a gwasanaethau cynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys taliadau i rydd-gyfranwyr hunangyflogedig sy'n ymgymryd â, er enghraifft, gwaith cyfarwyddo, cynhyrchu, gwasanaethau sain a chamera, grip, rhedwyr, cerddoriaeth a gwisgoedd ac ati. Mae hyn hefyd yn cynnwys taliadau am wasanaethau ôl-gynhyrchu ar is-gontractau, a fyddai'n cynnwys golygu a gweithgareddau cysylltiedig eraill. Defnyddir cyfran helaeth o'r arian hwn felly i dalu i bobl am waith a wnaed yn y diwydiant.

Gan fod cynhyrchu rhaglenni yn weithgaredd sy'n gofyn am lawer o lafur, mae'n amlwg hefyd fod swm sylweddol o arian yn cael ei wario gan gwmnïau annibynnol ar gyflogaeth uniongyrchol. Mae'r swm hwn i'w weld islaw'r is-gyfanswm yn rhes 'costau llafur uniongyrchol'. Islaw'r is-gyfanswm hefyd mae gwariant ar eitemau a gafwyd o'r tu allan i Gymru, neu a 'fewnforiwyd', yn cael ei amcangyfrif. Mae'r rhes olaf yn nodi cyfanswm gwariant gan y sector annibynnol yng Nghymru.

Tra bo cywirdeb y ffigurau hyn yn ganlyniad i'r arolwg a'r broses uwchraddio, mae'n bosibl awgrymu, serch hynny, fod cyflogaeth uniongyrchol yn y sector annibynnol i'w weld fel pe bai ar gynnydd, tra bo swyddi sy'n cael eu creu gan weithgaredd rhydd-gyfranol ac ôl-gynhyrchu wedi parhau'n weddol gyson dros y cyfnod.

Tabl 4.4 – Amcangyfrif o wariant y Sector Annibynnol yng Nghymru

	£m				
	2002	2003	2004	2005	2006
Cyfanswm y llafur a gwasanaethau cynhyrchu a brynwyd	20.58	20.01	19.48	18.64	21.24
Ynni, dŵr	0.68	0.55	0.58	0.55	0.47
Llogi offer darlledu ac ati	8.59	8.39	8.85	7.88	9.52
Nwyddau traul, offer sydd ddim ar gyfer darlledu	2.87	2.67	3.11	3.07	3.37
Gwasanaethau cyllid a busnes	1.12	0.95	0.56	0.57	0.64
Cludiant, post, telegyfathrebu ac ati	1.44	1.45	2.10	2.32	3.13
Eitemau eraill sydd heb eu rhestru eisoes	4.55	3.44	7.39	6.56	8.50
Is-gyfanswm	39.84	37.46	42.07	39.58	46.87
Mewnforio nwyddau a gwasanaethau	7.29	6.31	9.41	7.81	5.82
Costau llafur uniongyrchol	16.78	18.66	20.46	21.64	27.57
Gwerth ychwanegol arall	6.45	5.40	10.18	8.52	6.22
Allbwn Gros/Trosiant	70.35	67.84	82.12	77.54	86.48
Swyddi sy'n cyfateb i rai amser llawn	599	602	620	637	766
Noder: efallai na fydd y cyfanswm yn cyfateb, gan fod y ffigurau wedi'u rowndio. Mae'r tabl yn amcangyfrif dosbarthiad gwariant darparwyr cynnwys rhaglenni cyfrwng Cymraeg sydd wedi darparu rhaglenni i S4C (yn y cyfnod rhwng 2002 a 2006).					

Mae'r cynnydd hwn mewn swyddi wedi'i gysylltu â'r cynnydd mewn trosiant cyfanredol a nodir yn y rhes olaf ond un, dros y cyfnod o bum mlynedd. Serch hynny, mae'n bwysig nodi fod rhywfaint o'r twf yma wedi'i greu trwy fanteisio ar gyfleoedd masnachol y tu allan i Gymru, (sydd ddim, o anghenraid wedi'i gysylltu ag S4C), neu trwy gyfuniadau allai gynnwys ffynonellau refeniw sefydledig y tu allan i Gymru. Y pwynt pwysig yw bod y ffigurau'n adlewyrchu'r ffaith fod gan y sector fwy o allu i ymateb yn fasnachol mewn

hinsawdd hynod gystadleuol, yn unol ag amcanion Strategaeth Raglenni S4C, sy'n ceisio annog dilyn arferion busnes cynladwy a rhagoriaeth greadigol.

4.1.3 Effaith Economaidd S4C

Mae gwariant uniongyrchol S4C **yng Nghymru** sydd i'w weld yn Nhabl 4.2 a'r rhan fwyaf o wariant y sector annibynnol sydd i'w weld yn Nhabl 4.4 yna'n cael effaith ar yr economi trwy rowndiau prynu olynol gan gyflenwyr i gyflenwyr (effaith cyflenwyr) ac ati. Hefyd, caiff effeithiau o ganlyniad i incwm eu creu wrth i staff S4C, a chyflenwyr S4C (a'u cyflenwyr hwy ac ati) wario eu hincwm, gan greu galw a swyddi ychwanegol. Amcangyfrifwyd cyfanswm yr effaith hwn drwy ddefnyddio Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Nhabl 4.5.

Tabl 4.5 – Amcangyfrif o Effaith Cyflogaeth S4C ar Economi Cymru 2002-06

	Swyddi (Cyfateb i swyddi Amser Llawn - FTE)				
Allbwn Gros S4C *	£95.9m	£94.5m	£95.0m	£95.6m	£96.7m
	2002	2003	2004	2005	2006
<i>Sydd yna'n cefnogi cyflogaeth yn:</i>					
S4C	205	206	196	185	177
Gwasanaethau cynhyrchu annibynnol	525	537	521	558	605
Is-gontractwyr cwmnïau annibynnol	654	640	549	510	536
Cyfyngau a gwasanaethau cyhoeddus eraill	123	111	155	181	197
Gwestai, adwerthu, cyfanwerthu	268	258	275	270	287
Sectorau eraill	464	431	450	420	452
Cyfanswm	2,240	2,183	2,146	2,124	2,254

Noder: efallai na fydd y cyfanswm yn cyfateb, gan fod y ffigurau wedi'u rowndio

*Cyfanswm gwariant/trosiant S4C.

Mae canlyniadau uniongyrchol gweithgaredd S4C ar yr economi lleol yn gymharol hawdd i'w hasesu. Ym mhob un o'r pum mlynedd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2006 cynhyrchodd S4C drosiant blynyddol o dros £95m ar gyfartaledd, gan ddarparu rhwng 206 a 177 swydd yn cyfateb i swyddi amser llawn o fewn y corff yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rheolwyr a gweithwyr proffesiynol hynod fedrus yw'r unigolion hyn gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol ar y cyfan, ac felly'n derbyn cyflogau da. Heb gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr, ond yn cynnwys taliadau goramser, mae cyfartaledd cyflog gros yn S4C ychydig o dan £35,000, sy'n cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru ar gyfer galwedigaethau rheoli. Mae cyfartaledd cyflogau S4C yn gyson â'r sector ddarllediadau teledu, fel y nodir mewn arolygon diweddar, fel Arolwg Gweithlu Skillset 2005, a ddangosodd fod cyfartaledd y cyflogau yn y sector ddarlledu teledu yn fwy na £35,000 yn 2005 (£35,902). Hefyd, nododd adroddiad diweddar gan Televisual¹¹ fod cyfartaledd cyflog ar draws y busnes i fyny o £39,600 yn 2004 i £42,600 yn 2006, gan ddangos fod cyfartaledd cyflog cynhyrchwyr gweithredol, cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr oddeutu £85,000, £55,000 a £48,000 yn eu tro. Dros y tair blynedd diwethaf, mae S4C wedi gostwng maint ei staff gweithredol o 206 swydd sy'n cyfateb i swydd amser llawn yn 2003 i 177 yn 2006, gan wneud y sefydliad yn fwy main. Serch hynny, mae cynnydd mewn swyddi yn y sector cynhyrchu annibynnol wedi gwneud yn iawn yn rhannol am y gostyngiad hwn.

¹¹ Televisual Chwefror 2007

Mae llinell uchaf Tabl 4.5 yn dangos allbwn gros neu drosiant S4C ym mhob un o'r 5 mlynedd. Mae gweithgareddau uniongyrchol S4C yn cefnogi swyddi (ac incwm) mewn sectorau eraill o'r economi. Mae'r effeithiau hyn wedi'u crynhoi mewn rhannau eraill o'r sector sy'n ymwneud â'r cyfryngau (oherwydd y lefelau gwariant uchel yn y sector hwn, sydd i'w weld yn Nhablau 4.2 a 4.4), ond hefyd yn ymestyn i ddiwydiannau eraill. Mae effeithiau'r 'cyflenwyr' ac 'o ganlyniad i incwm' yn creu swyddi yn y diwydiant gwestai, arlwyo ac adwerthu, ac mewn sectorau gwasanaethu eraill (yn cynnwys gwasanaethau busnes a'r sector cyhoeddus).

Mae rhes olaf Tabl 4.5 yn dangos cyfanswm effaith S4C ar yr economi lleol. Dros y cyfnod o bum mlynedd, gwelwyd fod gweithgareddau S4C yn cefnogi dros 2,100 swydd lawn amser, trwy effeithiau lluosogi. Tra gallai fod yn rhy fuan i awgrymu fod effaith S4C ar gyflogaeth yn cynyddu'n gyson, nid oes amheuaeth mai un o brif gyfraniadau economaidd S4C yw ei dylanwad cryf yn sefydlogi swyddi, yng nghanol y ffactorau niferus eraill sy'n peri ansicrwydd yn y sector. Mae sefydlogrwydd yn y rhan 'gyflogedig' o'r sector yn gwella rhagolygon datblygu sgiliau, buddsoddi a rhagoriaeth greadigol.

Mae Tabl 4.6 yn cyfleu'r effeithiau cyflogaeth yn Nhabl 4.5 fel gwerth ychwanegol, gan ddangos effaith economaidd S4C ar economi Cymru. Prif elfennau gwerth ychwanegol yw cyflog gros ac elw/gweddill. Mae llinell uchaf Tabl 4.6 yn amcangyfrif gwerth ychwanegol S4C ym mhob un o flynyddoedd yr astudiaeth, ac yn dangos rhywfaint o amrywiaeth. Mae'r amrywiad hwn o un flwyddyn i'r llall yn ganlyniad i batrymau incwm a gwariant. Er enghraifft, yn 2004 roedd gwariant gweithredol S4C ar gyflogau ac agweddau eraill yn fwy na'r incwm, gan arwain at golled o tua £4m, tra yn 2003, roedd gweddill o tua £4m.

Mae ail linell Tabl 4.6 yn nodi gwerth ychwanegol y gellir ei gysylltu â gweithgaredd y sector cynhyrchu annibynnol. Gan gymryd 2006 fel enghraifft, mae Tabl 4.5 yn dangos fod 605 swydd lawn amser yn y sector cynhyrchu annibynnol wedi'u cynnal gan wariant S4C yn y flwyddyn honno, ac mae Tabl 4.6 yn dangos fod y swyddi hyn yn arwain at bron i £28m mewn gwerth ychwanegol. Amcangyfrifir fod gweithgaredd S4C wedi cefnogi tua £87m o werth ychwanegol yn economi Cymru yn 2006.

Tabl 4.6 – Amcangyfrif o Effaith Gwerth Ychwanegol S4C ar Economi Cymru 2002-06 (£m)

	2002	2003	2004	2005	2006
S4C	7.29	11.89	4.06	6.49	6.47
Gwasanaethau Cynhyrchu Annibynnol	20.97	21.93	26.67	27.27	27.70
Is-gontractwyr i gwmnïau annibynnol	21.17	20.67	19.50	18.64	20.44
Cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus eraill	2.61	2.41	3.47	4.15	4.62
Gwestai, adwerthu, cyfanwerthu	5.46	5.42	5.92	5.93	6.46
Sectorau eraill	19.80	19.25	20.13	19.68	21.43
Cyfanswm	77.30	81.58	79.75	82.17	87.12

Noder: efallai na fydd y cyfanswm yn cyfateb, gan fod y ffigurau wedi'u rowndio

Noder nad yw ystod yr adroddiad yma yn cynnwys effaith rhaglenni a ddarperir gan BBC Cymru ar gyfer eu darlledu ar S4C fel rhan o'r ddarpariaeth statudol. Ariannir y rhaglenni yma o'r Drwydded Deledu. Yn yr arolygon perthnasol mae BBC Cymru wedi nodi'r gwariant a'r oriau a ddarparwyd fel ag y ganlyn.

Tabl 4.7 Gwariant ac Oriau a ddarparwyd gan BBC Cymru ar raglenni a ddarledwyd ar S4C

	2002/2003	2003/2004	2004/2005	2005/2006	2006/2007
Oriau	532	521	533	531	524
Gwerth £m	19.0	20.3	20.4	21.0	20.6
Noder: Blwyddyn gyllid rhwng Ebrill a Mawrth Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol BBC Cymru					

4.1.4 Crynodeb

Mae'r bennod hon yn asesu effaith economaidd S4C dros y blynyddoedd rhwng 2002 a 2006. Roedd y broses o amcangyfrif effaith economaidd S4C dros bob un o'r pum mlynedd yn cynnwys defnyddio data arolygon S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol ynghyd â thabl Mewnbyn-Allbyn a ddeilliodd o hynny ar gyfer pob blwyddyn.

Mae'r adroddiad yn dangos fod S4C ei hun yn sefydliad main dros ben gan nawr gyflogi 177 o staff sy'n cyfateb â staff amser llawn, yn dilyn gostyngiad sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Mae gan y darlledwr lefel refeniw sefydlog bob blwyddyn. Fel y nodwyd, mae S4C yn cael y mwyafrif helaeth o'i gwasanaethau o Gymru. Mae hyn yn golygu mai ychydig o wariant S4C y mae economi Cymru yn ei golli.

Effaith economaidd S4C ar economi Cymru yw cefnogi dros 2,100 swydd sy'n cyfateb i swyddi amser llawn, sy'n cyfateb i dros £77 miliwn mewn gwerth ychwanegol bob blwyddyn.

5. Crynodeb a Chasgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi amcangyfrif effaith economaidd S4C ar economi Cymru rhwng 2002 a 2006.

Mae S4C yn effeithio ar yr economi mewn dwy ffordd, yn uniongyrchol trwy gyflogi staff, ac yn anuniongyrchol trwy wario yn yr economi. Casglwyd gwybodaeth ariannol fanwl gan S4C i ddeall yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol hyn a phatrymau gwario.

Mae S4C yn gwario'r mwyafrif o'r refeniw ar gynhyrchu rhaglenni Cymraeg trwy'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Er mwyn amcangyfrif effaith S4C, roedd yn bwysig deall sut roedd y cwmnïau cynhyrchu hyn yn gweithredu o fewn yr economi a'r nwyddau a'r gwasanaethau roeddynt yn eu caffael. Byddai hyn yn dangos sut fyddai gweddill yr economi'n ymateb i newid mewn gwariant yn y sector cynhyrchu.

Mae Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru, sy'n cael eu cynhyrchu a'u diweddarau gan Uned Ymchwil Economi Cymru, yn dangos sut mae sectorau'r economi'n rhyngweithio. Mae hyn yn bwysig i ddangos sut mae newid mewn un sector yn effeithio ar sectorau eraill yr economi. Dangosodd gwybodaeth a gasglwyd gan S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol beth ddigwyddodd yn y diwydiant Cymreig dros y pum mlynedd diwethaf, a defnyddiwyd y tablau Mewnbwn-Allbwn i ddangos effaith hyn ar economi Cymru.

Fel gydag unrhyw fodelu, mae cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gyfrif. Dylid nodi fod yr wybodaeth yn seiliedig ar sampl o ddata gan sector cynhyrchu Cymru, ac nid gan y boblogaeth gyfan. Yn ail, mae'r broses yn creu ambell gipolwg ar yr economi dros bob un o'r pum mlynedd. Yn drydydd, nid yw'r model yn ystyried pa effaith fyddai newid yn y galw yn ei gael ar gost cyflenwi, effaith economïau maint neu ganlyniadau adnoddau yn dod yn fwy prin a drud. Er gwaetha'r cafeatau hyn, caiff y dull ei ystyried yn eang fel arf grymus ar gyfer amcangyfrif effaith sector ar yr economi.

Mae effaith economaidd S4C ar economi Cymru i'w gweld yn nhabl 4.5 uchod. Gan gymryd 2006 fel enghraifft, o gyfanswm allbwn o £96.7 miliwn, a gwariant o £83.64 miliwn yng Nghymru, cefnogodd S4C tua 2,254 swydd yn cyfateb i swydd amser llawn yng Nghymru.

Mae mwyafrif y swyddi hyn (1,515 swydd yn cyfateb i swydd amser llawn yn 2006) yn y sector cynhyrchu a gwasanaethau cysylltiedig. Mae hyn yn bwysig o ystyried ansawdd swyddi yn y sector hwn, sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol fel rhai tra medrus, sydd â chyflogau da ac yn cael eu cyfeirio gan dechnoleg. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun economi Cymru, ac yn helpu i leihau'r bwlch perfformiad rhwng Cymru a chyfartaledd y DG.

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar effaith economaidd S4C yn unig, ac nid yw wedi ceisio mesur effaith ehangach gweithgaredd S4C ac nid yw'n asesu effaith ansoddol S4C. Dylid ystyried hyn wrth ystyried S4C a'i heffaith ar Gymru.

Atodiad 1 Methodoleg Asesu Effaith Economaidd S4C

Methodoleg Mesurol

Er mwyn dadansoddi arwyddocâd economaidd gweithgaredd, diwydiant neu gorff unigol, mae angen gwahanu effeithiau economaidd uniongyrchol oddi wrth y rhai anuniongyrchol. Mae canlyniadau economaidd uniongyrchol yn ymwneud â'r gweithgaredd ei hun tra bo'r effeithiau anuniongyrchol yn cael eu teimlo yng ngweddill yr economi lleol, yn dibynnu ar sut, pryd a lle y bydd yr arian yn cael ei wario.

Amcan cyntaf yr asesiad hwn oedd amcangyfrif effeithiau uniongyrchol cyflogaeth trwy weithgareddau S4C rhwng 2002 a 2006, gan ddefnyddio gwybodaeth fanwl o gyfrifon S4C. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon wedyn i amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol cyflogaeth y gweithgareddau cefnogi ar economi Cymru.

Bydd gwariant uniongyrchol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol S4C yn cael canlyniadau anuniongyrchol yn dibynnu ar faint o arian gaiff ei wario. Er enghraifft, bydd gwariant gan S4C ar wasanaethau ariannol yng Nghymru yn creu galw am fewnbwn gan ddiwydiannau eraill Cymru, megis gwasanaethau busnes a nwyddau a gwasanaethau eraill. Mae'r cynhyrchwyr hynny yn eu tro yn gwario ar allbynnau diwydiannau eraill Cymru, ac yn y blaen. Effeithiau 'cyflenwyr' yw hyn, a phennir eu pwysigrwydd economaidd gan lefel defnydd o ffynonellau lleol gan y sector benodol honno, ac yna gan lefelau defnyddio ffynonellau lleol gan gyflenwyr, ac yn y blaen. Yn amlwg, ni ellir diwallu rhai o ofynion S4C a'i chyflenwyr yn lleol (fel sy'n wir am ddarlledwyr eraill yng Nghymru). Un enghraifft o hyn efallai yw'r offer technegol arbennig ar gyfer y cyfryngau.

Mae effeithiau economaidd eraill y gellir eu hamcangyfrif uwchlaw effeithiau'r cyflenwyr. Er enghraifft, yn 2006 roedd S4C yn darparu 177 swydd yn cyfateb i swyddi llawn amser (FTE) yn uniongyrchol. Mae'r swyddi hyn yn ychwanegu at incwm lleol, a bydd cyfran o'r incwm yma yn cael ei wario'n lleol, gan ychwanegu ymhellach at y galw lleol. Yn yr un modd, bydd cyfran o gyflogaeth gan gyflenwyr lleol (yn y cyfryngau a meysydd eraill) yn cael ei gefnogi gan wariant S4C, a bydd rhywfaint o hynny'n digwydd yn lleol. Effaith 'trwy incwm' ydynt, a rhaid eu hychwanegu at effeithiau'r cyflenwyr i asesu cyfanswm canlyniadau anuniongyrchol y gweithgareddau economaidd uniongyrchol. Yn yr un modd ag effeithiau uniongyrchol, gellir categorio effeithiau anuniongyrchol yn ôl allbwn, incwm a swyddi.

Mae dau o ofynion eang ar gyfer amcangyfrif y canlyniadau anuniongyrchol neu'r lluoswyr hyn. Yn gyntaf, rhaid archwilio patrymau gwario'r grŵp targed (S4C a'r cynhyrchwyr annibynnol y bydd yn comisiynu allbynnau ganddynt yn yr achos hwn). Tra bo'r boblogaeth o gwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi bod yn cydgrynhoi, a'n bod yn gwybod cryn dipyn am y sector, nid oedd yn bosibl archwilio pob un o'r cwmnïau i'r manylder angenrheidiol. Felly, roedd angen dewis sampl o gwmnïau er mwyn gallu gweld y gwahaniaethau yn y patrymau gwario o ganlyniad i'r amrywiaeth yn eu maint ac yn y mathau o gwmnïau sy'n gweithredu yn y sector, ac yna ddadansoddi'r wybodaeth mewn modd addas. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen defnyddio sampl 'bwriadus' (yn hytrach nag un ar hap). Gyda phoblogaeth fach a hawdd i'w hadnabod, nid oedd maint y sampl mor bwysig ag ansawdd yr wybodaeth. Mae'r wybodaeth ariannol a gafwyd gan bob cwmni'n gyfrinachol. Cyfunwyd y canlyniadau ariannol hyn er mwyn creu sector cyfanredol oedd yn cynrychioli'r patrymau prynu (neu'r 'fector', er dibenion creu model) sy'n creu effeithiau economaidd sydd wedi hynny'n cael eu hadleisio trwy Gymru.

Yr ail o'r gofynion oedd cael 'model' o'r economi lleol fydd yn gallu amcangyfrif effeithiau'r perthnasau masnachu ariannol yng Nghymru (h.y. trwy eu patrymau prynu a gwerthu), sy'n caniatáu i effaith y sector darged gael ei dilyn trwy'r economi leol drwyddi draw. Mae tabl Mewnbwn-Allbwn yn nodi'r trafodion rhwng gwahanol sectorau o'r economi a thu hwnt, a throsglwyddwyd yr wybodaeth hon i fframwaith fodelu er mwyn medru mesur effeithiau'r sector.

Cyfyngiadau'r Model

Tra bo dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn yn cynnig arf modelu grymus, mae iddo nifer o gyfyngiadau. Mae'r tablau y mae'r model yn seiliedig arnynt yn cynnig amcangyfrif o economi Cymru mewn un flwyddyn arbennig, gyda thablau diweddaraf Cymru yn cyfeirio at 2003. Yn achlysurol yn unig y caiff tablau Mewnbwn-Allbwn llawn yn seiliedig ar arolwg eu llunio, oherwydd y costau sylweddol sydd eu hangen o ran amser ac adnoddau. Hefyd, nid oes newid digon arwyddocaol mewn patrymau prynu a gwerthu diwydiannau a defnyddwyr yn y tymor byr i gyfiawnhau cael tabl yn seiliedig ar arolwg bob blwyddyn. Felly, er mwyn creu model o effeithiau economaidd ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd rhwng 2002 a 2006 amcangyfrifwyd tabl gwahanol ar gyfer pob blwyddyn trwy wneud addasiadau syml i dablau 2003 i adlewyrchu gwahaniaethau mewn prisiau rhwng y blynyddoedd eraill. Felly, cafodd y ffigurau yn nhablau 2003 eu gostwng ar gyfer 2002, a'u cynyddu er mwyn creu tablau ar gyfer 2004, 2005 a 2006. Yna, cafodd y data o'r arolwg ar gyfer S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol, ei gynnwys yn y model perthnasol er mwyn amcangyfrif yr effaith ar gyfer pob blwyddyn.

Mae'r broses o greu modelau Mewnbwn-Allbwn yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau allweddol. Caiff y model ei yrru gan y galw, a bydd yn adlewyrchu effeithiau lefel galw benodol ar gyflogaeth ac allbwn, heb addasu ar gyfer effaith y cyflenwad ar gost y gofynion hynny. Yn y byd go iawn, gallai newid yn y lefel galw mewn economi arwain at newid yng nghost y mewnbynnau yn dibynnu ar faint o gyflenwad o'r nwyddau a'r gwasanaethau angenrheidiol sydd ar gael i'r sectorau dan sylw. Nid yw dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn yn cynnwys yr addasiadau hyn o ran y cyflenwadau, ond yn hytrach, mae'n adlewyrchu safle cydbwysedd allai gymryd nifer o flynyddoedd i gael ei ddatrys (sef y tymor hir). Hefyd, nid yw'r broses fodelu yn cynnwys ffactorau fel newidiadau technolegol, neu arbedion maint, a fydd yn newid y modd y bydd diwydiannau yn prynu mewnbynnau. Serch hynny, fel y nodwyd uchod, nid yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol yn y tymor byr.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r dull Mewnbwn-Allbwn yn cynnig disgrifiad manwl o economi, ac mae'n ddull poblogaidd, derbyniol ac eglur sy'n ddefnyddiol ar gyfer asesu effaith neu arwyddocâd ymylol diwydiannau neu weithgareddau ar eu heconomïau lleol.

Enghreifftiau Eraill

Uned Ymchwil Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd sy'n creu tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru, ac maent yn gynnyrch prosiect ymchwil barhaus i ddatblygu a dadansoddi strwythur economi Cymru, a'r modd y mae'n newid dros amser. Mae'r tablau hyn wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer amrywiaeth o astudiaethau ar effaith gwahanol ddiwydiannau yng Nghymru, er enghraifft diwydiannau twristiaeth, y celfyddydau a diwylliant, y diwydiant coedwigaeth, y sectorau addysg uwch ac addysg bellach a'r diwydiant dur. Maent hefyd wedi cael eu defnyddio i amcangyfrif effaith darlledu yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am yr astudiaethau hyn, a phrosiect Mewnbwn-Allbwn Cymru ar gael ar www.weru.org.uk.

Methodoleg Mesurol

Mae un cyfyngiad arall yng nghyd-destun yr astudiaeth arbennig hon yn ymwneud ag ymdrin â 'swmp' o refeniw a gwariant gan gwmnïau unigol, sy'n hysbysu'r drefn fodolu. Mewn perthynas â hyn, gall rhai cwmnïau wneud yn dda mewn un rownd gomisiynu ar draul cwmnïau eraill, gan fod effaith y sector hon drwyddi draw yn deillio yn uniongyrchol o gyfeiriad S4C, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac felly'n gyfyngedig i gyllideb gomisiynu uniongyrchol S4C. Ni all y fethodoleg fesurol hon ond creu model o effaith y gwariant hwn.

Tra nad yw effaith economaidd S4C, o ran ei ddylanwad ar allu cwmnïau unigol i ymddwyn yn fasnachol a chystadleuol, yn llai hanfodol, rhaid ymdrin â hynny'n ddisgrifiadol. Er enghraifft, mae arian sy'n cael ei gadw'n ôl er budd yn y dyfodol neu arian sy'n cynyddu hyder, sy'n denu arian cyfatebol neu roi grym trafod, yn dueddol o orwedd y tu allan i ffiniau'r dull hwn. Serch hynny, mae'r dull yn amlwg yn cynnig modd o ddyfalu effeithiau cysylltiedig yn eithaf cywir, fel sy'n digwydd yn yr adroddiad hwn.